**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 21.05.15**

**YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO – BRIFF DRAFFT**

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae yn bwysig iawn bod y drefn gynllunio yn cydfynd ag anghenion cymunedau'r Sir ac mae canfyddiad nad oes digon o ystyriaeth yn cael ei roi i faterion fel yr economi wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Yn sgil hyn penderfynwyd cynnal ymchwiliad craffu ar y drefn gynllunio, gan ystyried cyfundrefnau cynllunio'r Cyngor a'u haddasrwydd ar gyfer cyd-fynd ag anghenion cymunedau'r Sir yn economaidd, yn ogystal â ffactorau eraill.

1.2 Rhaid nodi fod yr ymchwiliad yma yn benodol berthnasol i Ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd yn unig, gan mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r Awdurdod Cynllunio ar gyfer ardal y Parc.

1.3 Mae'r system gynllunio'n gweithredu o fewn fframwaith statudol a chredir fod angen deall:-

i) beth yw'r gofynion statudol perthnasol

ii) y fframwaith polisi cynllunio'n genedlaethol ac yn lleol

iii) ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill a beth yw'r pwysau a roddir i'r ystyriaethau cynllunio hynny.

1.4 Gellir wedyn edrych mewn mwy o fanylder ynglŷn â sut mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu o ran penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a sut roddir cyngor i ddarpar ddatblygwyr, cyn iddynt gyflwyno cais.

## 2. PWRPAS YR YMCHWILIAD

2.1 Bydd yr ymchwiliad yn ceisio, yn y lle cyntaf sefydlu ddealltwriaeth ynglyn â :

- Beth yw'r gofynion statudol sydd yn berthnasol i'r system gynllunio?
- Beth yw'r gofynion o ran polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol?
- Beth yw'r ystyriaethau cynllunio perthnasol wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio a pha bwysau a roddir i'r ystyriaethau cynllunio gwahanol?
- Faint o ryddid sydd gan y gyfundrefn gynllunio o fewn y fframweithiau uchod

2.2 Bydd yr Ymchwiliad wedyn yn ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn:-

- Sut mae Cyngor Gwynedd yn delio gyda cheisiadau cynllunio o ran trefn, perfformiad, niferoedd ac ati?

- Oes yna unrhyw dystiolaeth gadarn sydd yn awgrymu nad yw'r Cyngor yn rhoi digon o ystyriaeth i'r economi wrth baratoi polisïau cynllunio ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio?

- A yw'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer cynnig cyngor i ddarpar ddatblygwyr wrth iddynt fynd trwy'r broses gynllunio yn llyfn a hwylus a felly yn cyfleu delwedd o gyfundrefn sydd yn hybu a datblygu neu un sydd yn rheoleiddioi?

- Beth yw profiad defnyddwyr y gyfundrefn , yn aelodau o'r cyhoedd, cynghorau tref a chymuned a defnyddwyr eraill?

**3. EFFAITH**

3.1 Bydd yr Ymchwiliad Craffu yn:

- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet

- Rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw rwystrau a sut i'w datrys

DRAFFT